RSE is taught in an age-appropriate way and is integrated across different areas of learning. This means that children learn about relationships, rights, and well-being in a natural and meaningful way.

What does RSE include?

The RSE curriculum is divided into three main themes.

1. Relationships and Identity

Children learn about:

- different types of relationships (family, friends, community)
- how relationships and experiences help shape who they are
- the importance of respect, kindness and human rights
- understanding that people and families vary, and that everyone deserves respect.

2.Sexual Health and Well-being

This includes:

- how living things grow and change
- how a person's body develops as they mature
- feelings about their bodies and how to express those feelings safely
- how kind and respectful relationships support well-being.

3. Empowerment, Safety and Respect

Children learn about:

- their right to safety and protection
- recognising unsafe situations and knowing how to get help
- where to find reliable information and support
- how to respect others and stand up for fairness and dignity

How is RSE taught?

RSE is introduced gradually across three broad developmental stages:

- From age 3
- From age 7
- From age 11

Learning develops over time so that children receive information appropriate to their age and stage of development.

Is RSE compulsory?

YES.

Under the Curriculum for Wales 2022, RSE is compulsory for all learners aged 3–16.

Parents do not have the right to withdraw their child from any part of RSE provision.

We are committed to working closely with parents and carers. If you have any questions, or if you would like to discuss how we teach RSE, you are welcome to contact us.

**Important note:This is taught sensitively and in a way that is fully age-appropriate.*
Younger children learn simple ideas about growing and care; older learners build on this as they mature.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Religion, Values and Ethics

Cysylltiad Crefyddol yr Ysgol

Nid yw'r Ffederasiwn yn dal cysylltiad uniongyrchol na ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Cyflwynir addysg grefyddol yn unol â maes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod Lleol, sydd ar gael i'w archwilio yn yr ysgol.

Addysg Grefyddol (AG)

Mae cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol yn seiliedig ar y ffydd Gristnogol, ond mae hefyd yn ystyried ac yn cyfeirio at brif grefyddau'r byd. Mae'r addysgu yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion:

- ddatblygu dealltwriaeth o ddimensiwn crefyddol bywyd,
- archwilio sut mae credoau ac arferion yn cael eu mynegi gan unigolion a chymunedau,
- adlewyrchu ar werthoedd cymdeithasol, moesegol a phersonol,
- meithrin ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau tuag at:
    - eu teulu,
    - eu cyfoedion,
    - a chyd-ddyn o wahanol gefndir, lliw, cred a hil.

Cyd-addoli

Cynhelir gwasanaeth dyddiol yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986. Gall hyn fod fel:

- gwasanaeth ysgol gyfan, neu
- wasanaeth dosbarth.

Nid oes unrhyw ymgais i drwytho disgyblion mewn credoau penodol. Yn hytrach, mae'r gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd i:

- feddwl am werthoedd moesegol a ffordd o fyw foesegol,
- arsylwi ymarfer Cristnogaeth, ac o bryd i'w gilydd, gredoau eraill.

Ymwelwyr rheolaidd fydd yn cyfrannu at ein gwasanaethau cyd-addoli yw:

- Dr Owain Edwards (Coleg y Bala)
- Parch. Carwyn Siddall

O bryd i'w gilydd, bydd dosbarthiadau'n arwain gwasanaethau eu hunain, gan gyfrannu at fywyd cymunedol yr ysgol. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan bwysig o sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn rhan lawn o gymuned yr ysgol.

Religious Affiliation of the School

The Federation does not hold any direct or formal connection with any religious denomination. Religious education is delivered in accordance with the Local Authority's recognised syllabus, which is available to view at the school.

Religious Education (RE)

The school's Religious Education course is based on the Christian faith but also refers to and considers the major world religions. The teaching provides opportunities for pupils to:

- develop an understanding of the religious dimension of life,
- explore how beliefs and practices are expressed by individuals and communities,
- reflect on social, moral and personal values,
- develop awareness of responsibilities towards:
    - their family,
    - their peers,
    - and fellow human beings from different backgrounds, colours, beliefs and races.

Collective Worship

A daily act of collective worship is held in accordance with the requirements of the Education Act 1986. This may take the form of:

- a whole-school assembly, or
- a class-based assembly.

There is no attempt to indoctrinate pupils in any specific beliefs. Instead, assemblies provide opportunities to:

- think about moral values and ways of living,
- observe Christian practice, and occasionally, the practices of other religions.

Regular visitors who contribute to our collective worship include:

- Dr Owain Edwards (Coleg y Bala)
- Reverend Carwyn Siddall

From time to time, classes will lead their own assemblies, contributing to the communal life of the school. These occasions are important in helping pupils feel fully part of the school community.

Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol

O safbwynt yr ysgol:

- Bydd y Ffederasiwn yn darparu rhaglen addysgu eang a chytbwys sy'n cwrdd â gofynion:
  - Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd,
  - Fframwaith Cymhwysedd Digidol,
  - Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn gweithio hyd eithaf ei allu.
- Bydd yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel, gofalgar a chynorthwyol i bob disgybl.
- Bydd y Ffederasiwn yn darparu gwaith cartref sy'n briodol i oedran y disgyblion, gan gynnwys:
  - darllen rheolaidd,
  - ymarfer tablau,
  - ymarfer llawysgrifen.
- Bydd yr ysgol yn:
  - darparu gwybodaeth reolaidd i rieni,
  - rhannu cynnydd disgyblion,
  - cysylltu'n brydlon ynghylch unrhyw bryderon.
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw teilwng a chyflym i unrhyw bryder a godir gan rieni/gwarcheidwaid.

O safbwynt rhieni/gwarcheidwaid:

Disgwylir i rieni/gwarcheidwaid:

- Rhoi pob cymorth a chefnogaeth i'w plentyn gyda'i addysg.
- Cefnogi unrhyw weithgareddau a osodir gan yr ysgol, gan gynnwys:
  - gwaith cartref,
  - darllen rheolaidd,
  - dysgu tablau,
  - ymarfer llawysgrifen.
- Mynd i nosweithiau rhieni a chyfarfodydd i drafod datblygiad a chynnydd eu plentyn.
- Sicrhau prydlondeb a bod eu plentyn yn dod i'r ysgol yn barod ar gyfer dysgu.
- Cydymffurfio â Pholisi Ymddygiad yr ysgol ac annog parch, cytgord a chydweithio.
- Annog eu plentyn i feithrin hunan-barch a pharch at eraill.
- Cysylltu â'r ysgol ar unwaith os yw'r plentyn yn absennol, neu os oes unrhyw bryder neu newid a all effeithio ar ei les neu ei ddysgu.

Home–School Agreement

From the school's perspective:

- The Federation will provide a broad and balanced programme of teaching that meets the requirements of:
  - the Literacy and Numeracy Framework,
  - the Digital Competence Framework,
  - and Curriculum for Wales 2022.
- Every effort will be made to ensure that each pupil works to the best of their ability.
- The school will provide a safe, caring and supportive environment for all pupils.
- The Federation will provide homework appropriate to pupils' ages, including:
  - regular reading,
  - times tables practice,
  - handwriting practice.
- The school will:
  - provide regular information to parents/carers,
  - share pupil progress,
  - contact parents/carers promptly regarding any concerns.
- The school will give proper and timely attention to any concern raised by parents/carers.

From the parents'/carers' perspective:

Parents/carers are expected to:

- Give full support to their child with their education.
- Support any activities set by the school, including:
  - homework,
  - regular reading,
  - learning times tables,
  - handwriting practice.
- Attend parents' evenings and meetings arranged to discuss their child's progress and development.
- Ensure good punctuality and that their child arrives ready to learn.
- Comply with the school's Behaviour Policy and support it at home.
- Encourage their child to develop self-respect and respect for others.
- Contact the school immediately if their child is absent, or if there are any concerns or changes that may affect the child's wellbeing or learning.

Iechyd a Diogelwch / Health and Safety

Mae iechyd a diogelwch yn hollbwysig yn Ffederasiwn Cysgod y Foel. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel ac yn cael ei ofalu amdano tra bydd yn yr ysgol.

Pan fydd plentyn yn sâl

- Cymerwn ofal da o bob plentyn drwy'r dydd.
- Os bydd plentyn yn sâl, byddwn yn cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid ar unwaith.
- Cedwir cofnodion o bob damwain.
- Os bydd niwed i'r pen, cysylltir â rhieni ar unwaith bob tro.

Cymorth Cyntaf

- Bydd aelodau o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf bob amser ar y safle.

Ymarferion Diogelwch

- Cynhelir ymarfer tân unwaith bob tymor.
- Cynhelir ymarfer cloi mewn argyfwng unwaith y flwyddyn.

Ymwelwyr i'r ysgol

- Rhaid i bob ymwelydd ddod i mewn drwy'r brif fynedfa.
- Rhaid iddynt ac arwyddo mewn yn y dderbynfa.
- Bydd staff yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu hebrwng i'r lle cywir.
- Disgwylir i ymwelwyr wisgo cerdyn adnabod ac lofnodi allan wrth adael.

Ymweld â'r ysgol

- Mae croeso i rieni/gwarcheidwaid ddod i'r ysgol.
- Gofynnwn i chi ffonio ymlaen llaw fel y gallwn drefnu i chi gwrdd â'r aelod staff priodol.

Moddion (Medications)

- Ar gyfer moddion tymor byr, gall staff roi meddyginiaeth os yw ffurflen wedi'i llofnodi ymlaen llaw gan riant/gwarcheidwad.
- Ar gyfer moddion tymor hir, mae angen cais ysgrifenedig gan feddyg.
- Fel arfer, os yw plentyn angen meddyginiaeth, efallai nad yw'n ddigon iach i ddod i'r ysgol.
- Os yw plentyn wedi bod yn taflu i fyny neu â dolur rhydd, rhaid ei gadw gartref am 48 awr.
- Ni roddir moddion o gwbl heb ffurflen swyddogol neu lythyr gan feddyg.

Health and safety is extremely important in Ffederasiwn Cysgod y Foel. Our priority is to make sure that every child is safe and well cared for while they are in school.

When a child is unwell

- We take good care of every child throughout the school day.
- If a child becomes unwell, we will contact parents/carers immediately.
- We keep records of all accidents.
- If there is any head injury, we always contact parents/carers straight away.

First Aid

- There will always be members of staff on site who are trained in first aid.

Safety Drills

- We hold a fire drill once every term.
- We hold a lockdown (emergency) drill once a year.

Visitors to the school

- All visitors must enter through the main entrance.
- Visitors must sign in at the reception desk.
- Reception staff will ensure visitors are taken to the correct meeting place.
- Visitors must wear a visitor ID badge and sign out when leaving the building.

Visiting the school

- Parents/carers are welcome to visit the school.
- Please phone ahead so that we can arrange a suitable time for you to meet the appropriate member of staff.

Medications

- For short-term medication, staff may give medicine if a signed consent form has been completed by parents/carers.
- For long-term medication, we require a written request from a doctor.
- Usually, if a child needs medication, they may not be well enough to attend school.
- If a child has been vomiting or has diarrhoea, they must stay at home for 48 hours.
- No medication will be given without a completed consent form or a doctor's letter.

Asesu / Assessment

Mae asesu'n rhan naturiol o gwricwlwm yr ysgol ac yn digwydd bob dydd fel rhan o'r profiad dysgu. Mae disgyblion yn gweithio gyda'u hathrawon i ddeall sut maent yn gwneud cynnydd. Mae hyn yn bwysig er mwyn:

- helpu dysgwyr ddeall beth maent wedi'i ddysgu,
- cefnogi cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu,
- nodi unrhyw heriau neu gymorth ychwanegol sydd ei angen,
- dod o hyd i ffyrdd o'u hymestyn neu o'u herio ymhellach,
- galluogi athrawon i fonitro cynnydd y dosbarth cyfan.

Bydd plant yn y Dosbarth Derbyn yn cael eu hasesu yn ôl canllawiau Asesiad ar Fynediad yn ystod eu tymor cyntaf.

Cynhelir Nosweithiau Rhieni ddwy waith y flwyddyn, lle amlinellir cynnydd a thargedau unigol y plentyn, a darperir cyfle i drafod cynnydd a lles eich plentyn.

Yn ogystal, cynhelir Noson Agored yn nhymor y Gwanwyn.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig llawn ar ddatblygiad eich plentyn.

Assessment is a natural part of the school curriculum and takes place every day as part of the learning experience. Pupils work with their teachers to understand how they are progressing. This is important in order to:

- help learners understand what they have learned,
- support them in planning their next learning steps,
- identify any challenges or additional support they may need,
- find ways to extend or further challenge them,
- enable teachers to monitor the progress of the whole class.

Children in the Reception Class will be assessed in line with Baseline Assessment guidance during their first term.

Parents' Evenings are held twice a year, where your child's progress and individual targets will be shared, along with an opportunity to discuss their wellbeing and development.

In addition, an Open Evening is held during the Spring Term.

At the end of the Summer Term, you will receive a full written report on your child's development.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae **Ffederasiwn Cysgod y Foel** wedi ymrwymo i gefnogi pob disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gennym bolisi a threfn glir ar waith, ac mae croeso mawr i rieni a gofalwyr gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth neu i weld y polisi.

Mrs Awel Jones yw Cydlynydd ADY Ysgol Ffridd y Llyn, a **Mrs Heledd Lynch** yw Cydlynydd ADY Ysgol Bro Tryweryn.
Credwn fod cefnogi disgyblion ag ADY yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff.

Trwy ddilyn **Côd Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru**, ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at gwricwlwm eang, cytbwys a chefnogol sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Ystyrir bod gan blentyn ADY os oes ganddo neu ganddi anhawster neu anabledd dysgu sydd angen cymorth ychwanegol. Gall y cymorth hwn gynnwys:

- Cefnogaeth unigol neu mewn grwpiau bach o fewn y dosbarth
- **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** lle bo angen mwy o gefnogaeth benodol

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni a gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys Seicoleg Addysg, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau lles a chymorth arbenigol eraill, i sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl i'n disgyblion.

Mae anghenion disgyblion yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n ofalus, gan ddefnyddio asesiadau priodol ac arweiniad yr Awdurdod Addysg.

Am ragor o wybodaeth dilynwch y ddolen: Anghenion dysgu ychwanegol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU ADYaCh - Cartref

Aditional Learning Needs

Ffederasiwn Cysgod y Foel is committed to supporting all pupils with Additional Learning Needs (ALN). We have a clear policy and procedures in place, and parents and carers are very welcome to contact the school for further information or to view the policy.

Mrs Awel Jones is the ALN Coordinator at Ysgol Ffridd y Llyn, and **Mrs Heledd Lynch** is the ALN Coordinator at Ysgol Bro Tryweryn.

We believe that supporting pupils with ALN is the responsibility of all members of staff. By following the **Additional Learning Needs Code for Wales**, our aim is to ensure that every child can access a broad, balanced and supportive curriculum that meets their individual needs.
A child is considered to have ALN if they have a learning difficulty or disability that requires additional support. This support may include:

- Individual support or small group work within the classroom
- An **Individual Development Plan (IDP)** where more specific or targeted support is required

We work closely with parents and a range of services, including Educational Psychology, Health Services, Social Services and other specialist wellbeing and support services, to ensure the best possible support for our pupils.

Pupils' needs are carefully recorded and regularly reviewed, using appropriate assessments and guidance from the Local Authority.

For more information follow the links: Additional learning needs | Sub-topic | GOV.WALES ADYaCh - Home

Plant ag Anghenion Corfforol

Mae **Ffederasiwn Cysgod y Foel** wedi ymrwymo i groesawu pob plentyn a sicrhau bod disgyblion ag anghenion corfforol yn teimlo'n ddiogel, yn gynwysedig, ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.
Ein nod yw darparu mynediad teg at:

- Holl weithgareddau'r ysgol
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Gwneir addasiadau rhesymol lle bo angen i gefnogi disgyblion.
Mae gan yr ysgol **Gynllun Hygyrchedd a Chydraddoldeb i Bobl Anabl**, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod yn hygyrch

Cydraddoldeb Anabledd

O dan **Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 2005**, mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod pob un sy'n defnyddio'r ysgol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, gan gynnwys disgyblion, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.
Rydym yn:

- Hyrwyddo cynhwysiant a thegwch
- Adolygu ein darpariaeth yn rheolaidd
- Gweithio'n agos gyda rhieni a gwasanaethau cymorth
- Gwella ein harferion yn barhaus er budd pob disgybl

Children with Physical Needs

Ffederasiwn Cysgod y Foel is committed to welcoming every child and ensuring that pupils with physical needs feel safe, included and able to take a full part in school life.
We aim to provide fair access to:

- All school activities
- The National Curriculum

Reasonable adjustments are made where necessary to support pupils. The school has an **Accessibility and Equality Plan for Disabled People**, which is reviewed regularly to ensure the school remains accessible and inclusive.

Disability Equality

Under the **Disability Discrimination Act (DDA) 2005**, the school has a duty to treat all users of the school fairly and equally, including pupils, staff, parents/carers and governors.
We:

- Promote inclusion and fairness
- Regularly review our provision
- Work closely with parents and support services
- Continuously improve our practice for the benefit of all pupils

Presenoldeb a Phrydlondeb / Attendance and Punctuality

Mae'n bwysig bod plant yn dod i'r ysgol **yn rheolaidd ac ar amser**. Mae'r ysgol â dyletswydd gyfreithiol i gadw cofnod o bresenoldeb pob disgybl.
Mae'n rhaid i ni nodi pob absenoldeb fel naill ai:

- **awdurdodedig** (wedi'i ganiatáu gan yr ysgol), neu
- **anawdurdodedig** (heb ganiatâd).

Pan fydd plentyn yn absennol

Gofynnwn i rieni neu ofalwyr gysylltu â'r ysgol **cyn 09:00 y bore** i roi gwybod os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol.
Os nad yw plentyn yn cyrraedd yr ysgol ac nad ydym wedi derbyn neges, byddwn yn ffonio'r cartref. Gwneir hyn i sicrhau **diogelwch** pob plentyn.

Absenoldeb Awdurdodedig

Dim ond yr ysgol all ganiatáu absenoldeb. Gall hyn gynnwys:

- salwch
- apwyntiadau meddygol, deintyddol neu optegyddol
- amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl

Bydd unrhyw absenoldeb arall yn cael ei gofnodi fel **anawdurdodedig**.
Rydym yn annog rhieni i drefnu apwyntiadau (oni bai am argyfwng) **ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau**, os yw hynny'n bosibl.

Gwyliau yn ystod tymor yr ysgol

Mae modd gwneud cais am hyd at **10 diwrnod ysgol** o wyliau mewn blwyddyn.
Dim ond y pennaeth all ganiatáu hyn, a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol. Ni ellir gwarantu y caiff cais ei dderbyn.
Bydd unrhyw absenoldeb heb reswm clir yn cael ei gofnodi fel **anawdurdodedig**.

Monitro presenoldeb

Mae presenoldeb disgyblion yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Caiff gwybodaeth ei rhannu â'r **Awdurdod Addysg Lleol** os oes angen.

It is important that children attend school **regularly and on time**. The school has a legal duty to keep a record of every pupil's attendance.
All absences must be recorded as either:

- **authorised** (approved by the school), or
- **unauthorised** (not approved).

When a child is absent

Parents or carers are asked to contact the school **before 9:00am** to inform us if their child will not be attending school.
If a child does not arrive at school and we have not received a message, we will contact the home by telephone. This is done to ensure the **safety** of all children.

Authorised Absence

Only the school can authorise an absence. This may include:

- illness
- medical, dental or optician appointments
- exceptional or unexpected circumstances

Any other absence will be recorded as **unauthorised**.
Parents are encouraged to arrange appointments (unless it is an emergency) **after school or during school holidays**, where possible.

Holidays during the school term

Requests can be made for up to **10 school days** of holiday during the academic year.
Only the headteacher can approve such requests, and each request will be considered individually. Approval cannot be guaranteed.
Any absence without a clear reason will be recorded as **unauthorised**.

Monitoring attendance

Pupil attendance is monitored regularly. Information may be shared with the **Local Authority**, where required.

Polisi Codi Tâl

Mae **Cyngor Gwynedd** yn darparu system talu ar-lein ar gyfer ciniawau ysgol a'r clwb gofal. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio **School Gateway** ar gyfer taliadau megis llaeth, ffrwythau, gwersi nofio, yr Urdd a thripiau ysgol. Ein nod yw lleihau'r angen i blant ddod ag arian parod neu sieciau i'r ysgol.

Codi tâl:

Gellir codi tâl llawn:

- am weithgareddau y tu allan i oriau ysgol nad ydynt yn ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- am gostau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl, ac eithrio lle mae rhieni'n gymwys i gael cymorth ariannol;
- am ddifrod i adnoddau addysgol o ganlyniad i gamymddygiad disgybl.

Gellir codi tâl rhannol:

- am ddifrod i adeiladau'r ysgol;
- am wersi offerynnol cerdd;
- am gostau teithio i wersi nofio.

Ni chodir tâl am fwyd na llety ar gyfer gweithgareddau sy'n ofynnol at ddibenion y **Cwricwlwm Cenedlaethol**.

Cyfraniadau gwirfoddol

Ar gyfer gweithgareddau dewisol yn ystod oriau ysgol, gellir gofyn am **gyfraniadau gwirfoddol**. Hysbysir rhieni ymlaen llaw, ond cedwir yr hawl i ganslo gweithgaredd os nad oes digon o gyfraniadau. Pan drefnir gweithgaredd gan gorff allanol, gellir codi tâl llawn a chaniatáu hyd at **10 diwrnod** o absenoldeb ymhob blwyddyn ysgol.

Charging Policy

Gwynedd Council provides an online payment system for school meals and the school care club. The school also uses **School Gateway** for payments such as milk, fruit, swimming lessons, Urdd activities and school trips. Our aim is to reduce the need for children to bring cash or cheques to school.

Charges:

Full charges may be made:

- for activities taking place outside school hours that are not statutory requirements of the National Curriculum;
- for food and accommodation costs associated with residential activities, except where parents are entitled to financial support;
- for damage to educational resources resulting from a pupil's misbehaviour.

Partial charges may be made:

- for damage to school buildings;
- for instrumental music lessons;
- for transport costs to swimming lessons.

No charge will be made for food or accommodation for activities required for the purposes of the **National Curriculum**.

Voluntary contributions

For optional activities taking place during school hours, **voluntary contributions** may be requested. Parents will be informed in advance; however, the school reserves the right to cancel an activity if insufficient contributions are received. Where an activity is organised by an external provider, full charges may apply and up to **10 days** of authorised absence may be granted in any school year.

Ein Gwerthoedd a'n Disgwyliadau

Rydym yn ysgol sy'n annog pob plentyn i fod yn **chwilfrydig**, i **fwynhau dysgu** ac i wneud eu gorau bob dydd. Credwn fod gan bob plentyn sgiliau, doniau a rhinweddau unigryw, ac rydym yn cefnogi pob disgybl i **lwyddo** a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.

Rydym yn disgwyl i'n dysgwyr:

- ddangos **parch** at eraill, at yr ysgol ac at eiddo
- bod yn **onest** ac yn gyfrifol am eu hymddygiad
- bod yn **ffrind da**, gan ofalu am eraill a chydweithio'n effeithiol
- cymryd balchder yn eu gwaith a dangos **ymdrech a dyfalbarhad**

Fel ysgol, rydym yn gosod **disgwyliadau uchel** ar gyfer ymddygiad, agwedd a dysgu, ac mae staff yn rhoi **enghraifft gadarnhaol** i'r disgyblion bob amser.

Credwn hefyd fod **meithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned leol** yn hanfodol, a bod **cydweithio cadarnhaol rhwng y ddau safle** yn gryfder sy'n cefnogi profiadau dysgu cyson a chyfoethog i'r disgyblion. Trwy weithio ar y cyd â rhieni, y gymuned a phartneriaid lleol, anelwn at greu amgylchedd **diogel, hapus a chefnogol** lle gall pob plentyn ffynnu.

Our Values and Expectations

We are a school that encourages every child to be **curious**, to **enjoy learning** and to **do their best every day**. We believe that every child has unique skills, talents and qualities, and we support all pupils to succeed and to develop the skills they need to make a positive contribution to society.

We expect our learners to:

- show **respect** for others, for the school and for property
- be **honest** and take responsibility for their behaviour
- be a **good friend**, showing care for others and working well together
- take pride in their work and show **effort and perseverance**

As a school, we set **high expectations** for behaviour, attitude and learning, and staff consistently provide **positive role models** for pupils.

We also believe that building **strong links with the local community** is essential, and that **positive collaboration between the two school sites** is a strength that supports consistent and enriching learning experiences for our pupils. By working together with parents, the community and local partners, we aim to create a **safe, happy and supportive environment** in which every child can thrive.

Y drefn gwyno

Sut i Wneud Cwyn

Os oes gan riant neu ofalwr bryder neu gŵyn am y cwricwlwm neu unrhyw fater arall yn yr ysgol, rydym yn annog pawb i siarad â'r ysgol yn gyntaf.

Yn aml iawn, gellir datrys problemau'n gyflym drwy sgwrs anffurfiol gyda'r Pennaeth. Dyma'r cam cyntaf arferol cyn gwneud cwyn swyddogol.

I drefnu hyn, cysylltwch â'r ysgol i wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth.

Os na ellir datrys y mater yn y ffordd hon, mae gan yr Awdurdod Addysg Lleol weithdrefn swyddogol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae gwybodaeth am y trefniadau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mewn ieithoedd eraill os oes angen.

Cwynion Swyddogol

- Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff, dylid anfon y gŵyn yn ysgrifenedig at y Pennaeth.
- Os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r Pennaeth, dylid ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethu.
- Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o'r Corff Llywodraethu, dylid ysgrifennu at y Cadeirydd, neu at yr Is-gadeirydd os mai contra'r Cadeirydd yw'r gŵyn.

Mae gan yr ysgol Bolisi Cwynion, a gall rhieni ofyn am ei weld unrhyw bryd.

The complaints procedure

How to Make a Complaint

If a parent or carer has a concern or complaint about the curriculum or any other matter at school, we encourage everyone to contact the school first.

Many issues can be resolved quickly through an informal discussion with the Headteacher. This is the normal first step before making a formal complaint.

To do this, please contact the school to arrange an appointment with the Headteacher.

If the matter cannot be resolved in this way, the Local Authority has a formal procedure for dealing with complaints. Information about this procedure is available in Welsh and English, and in other languages if required.

Formal Complaints

- If the complaint is about a member of staff, it should be made in writing to the Headteacher.
- If the complaint is about the Headteacher, it should be made in writing to the Chair of Governors.
- If the complaint is about a member of the Governing Body, it should be made in writing to the Chair of Governors, or to the Vice-Chair if the complaint is about the Chair.

The school has a Complaints Policy, which parents may ask to see at any time.

Blaenoriaethau Cynllun Gwella
Ffederasiwn Cysgod y Foel
2026/27
School Development Plan Priorities

Blaenoriaeth 1:

- Gwella safonau ysgrifennu drwy ddefnyddio strategaethau llafar “Ein Llais Ni” er mwyn sicrhau cynnydd a chysondeb ar draws y ffederasiwn.
- Improve writing standards by using the “Ein Llais Ni” oral language strategies to ensure progress and consistency across the federation.

Blaenoriaeth 2:

- Codi safonau darllen Saesneg drwy ddarparu ymyraethau, cymorth wedi ei dargedu a phrofiadau darllen ystyrlon sy'n cyfrannu at les a datblygiad personol disgyblion.
- Raise standards in English reading by providing interventions, targeted support, and meaningful reading experiences that contribute to pupils’ wellbeing and personal development.

Blaenoriaeth 3:

- (Dalgylchol) Parhau i ddatblygu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru gyda ffocws ar rifedd er mwyn sicrhau dilyniant mewn cynnydd a chysondeb ar draws y ffederasiwn a thrwy’r dalgylch
- (Cluster-wide) Continue to develop the principles of the Curriculum for Wales, with a focus on numeracy, to ensure progression and consistency across the federation and throughout the cluster.